Ysgol Gynradd Gymunedol Tal-y-bont
Pennaeth - Mr Hefin Jones
prif@talybont.ceredigion.sch.uk

05 / 01 / 2022

Annwyl Rieni,

Yn dilyn cyfarfodydd gyda swyddogion yr Adran Addysg dros y diwrnodau diwethaf, hoffwn eich diweddaru gyda'r manylion yma.

1. Os ydych yn weithiwr allweddol ac yn dymuno i'ch plentyn fynychu HWB gofal yn yr ysgol ar ddydd Gwener (07/01), mae'n hanfodol ein bod yn cael gwybod erbyn 9 o'r gloch bore fory (06/01) er mwyn sicrhau staffio addas os gwelwch yn dda.
2. Bydd sesiwn 30 munud yn cael ei chynnal ar TEAMS fel cyfle i gadw cysylltiad gyda chi a'ch plant
   Cyfnod Sylfaen - 10.00yb
   Blwyddyn 3 a 4 - 10.45yb
   Blwyddyn 5 a 6 - 11.30yb
   Cofiwch ei bod hi'n ddiwrnod ysgol felly mae'r Adran Addysg yn disgwyl i chi roi gwybod i ni os nad yw eich plentyn yn mynychu'r sesiwn yma.
3. Mae niferoedd uchel iawn o bobl Ceredigion yn cario Covid ar hyn o bryd ac mae disgwyl i bob ysgol addasu yn ôl y gofyn. O ddydd Llun ymlaen byddwn yn parhau i weithio fesul grŵp cyswllt; bydd disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gorfod wynebu'r blaen; ni fydd ymwelwyr yn cael dod i'r ysgol ac ni fyddwn yn cael mynd ar ymweliadau (gan gynnwys ymweliad i Wersyll Llangrannog yn anffodus).
   Byddwn yn parhau i gofnodi tymheredd pawb wrth gyrraedd yn y bore.
4. Bydd y Clwb Brecwast yn gallu parhau fel arfer, ond bydd angen ystyried yn ofalus os yw'n bosib cynnal y Clwb ar ôl Ysgol.
5. Mi fyddwn yn gweithredu canllawiau tebyg i'r gorffennol os oes symptomau dros yr wythnosau nesaf er mwyn cadw'r ysgol ar agor i bawb. Os yw eich plentyn yn dangos symptomau Covid, gofynnwn yn garedig i chi drefnu PCR a chael prawf negyddol cyn i'ch plentyn ddychwelyd i'r ysgol os gwelwch yn dda. Mae'n parhau i fod yn syniad da i gymryd tymheredd eich plentyn cyn dechrau ar y siwrne i'r ysgol.
   Os yw eich plentyn yn dangos symptomau yn ystod y dydd, byddwn yn rhoi gwybod i chi'n syth (gweler isod).
6. Diolch yn fawr i'r rhai ohonoch sydd wedi rhoi gwybod i ni os yw eich plentyn wedi dal Covid dros y gwyliau. Os nad ydych wedi rhoi gwybod i ni a fyddai'n bosib i chi wneud hynny os gwelwch yn dda.

Symptomau -

- **tymheredd uchel - mae hyn yn golygu eich bod chi'n teimlo'n boeth i gyffwrdd ar eich brest neu'ch cefn (nid oes angen i chi fesur eich tymheredd)**
- **peswch parhaus newydd - mae hyn yn golygu pesychu llawer am fwy nag awr, neu 3 phwl pesychu neu fwy mewn 24 awr (os oes gennych beswch fel arfer, gallai fod yn waeth na'r arfer)**
- **colled neu newid i'ch synnwyr arogli neu flasu - mae hyn yn golygu eich bod wedi sylwi na allwch arogli na blasu unrhyw beth, neu fod pethau'n arogli neu'n blasu'n wahanol i'r arfer**

Mae gan y rhan fwyaf o bobl â'r coronafeirws o leiaf un o'r symptomau hyn.

Ysgol Gynradd Gymunedol Tal-y-bont
Pennaeth – Mr Hefin Jones
prif@talybont.ceredigion.sch.uk

Dear Parents,
Following many meetings with Education Department Officers over the past few days, this is the current information.

1. If you are a key worker and would like your child to attend a care HWB at school on Friday (07/01), it is essential that we are informed by 9 o'clock tomorrow morning (06/01/22) to ensure suitable staffing.
3. A 30-minute 'check-in' session will be held on TEAMS as an opportunity to keep in touch with you and the children on Friday.
Foundation Phase – 10.00am
Years 3 and 4 – 10.45am
Years 5 and 6 – 11.30am
As it is a school day the Education Department expects you to please let us know if your child is not attending this session.
3. The current Covid figures for Ceredigion are very high and all schools are expected to adapt as required. From Monday we will continue to work as class contact groups; key stage 2 pupils will have to face the front; visitors will not be allowed into the school and we will not be allowed to go on visits (including the Gwersyll Llangrannog trip unfortunately).
We will continue to monitor children's temperatures in the morning.
4. The Breakfast Club will be able to continue as usual, but we will have to carefully consider if it's possible to re-open the After-School Club.
5. We will be implementing some of the past measures again over the next few weeks to keep the school open for everyone. If your child is showing Covid symptoms, please kindly arrange for a PCR test and children should not return to school until there is a negative result. It is still a good idea to take your child's temperature before starting your journey to school.
If your child is showing symptoms during the day, we will let you know immediately (see below).
6. Many thanks to those of you who have let us know if your child has caught Covid over the holidays. If you have not informed us already, could you please let us know.

The main symptoms of coronavirus are:

- *a high temperature – this means you feel hot to touch on your chest or back (you do not need to measure your temperature)*
- *a new, continuous cough – this means coughing a lot for more than an hour, or 3 or more coughing episodes in 24 hours (if you usually have a cough, it may be worse than usual)*
- *loss or change to your sense of smell or taste – this means you've noticed you cannot smell or taste anything, or things smell or taste different to normal*

Most people with coronavirus have at least 1 of these symptoms.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth unwaith eto.

Thank you for your support once again.

Hefin Jones